# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 16eg o Ebrill 2018 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Peter Parker, Griffith Evan Thomas;

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Arwel Pierce, Alan H. Jones

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 19 Mawrth 2018

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, gyda'r Cynghorydd Bethan Lawton yn cynnig a'r Cynghorydd Griffith Evan Thomas yn eilio'r cynnig.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101602 | £170.05 |
| Cyllid a Thollau | Yswiriant Gwladol | 101603 | £42.40 |
| Y Ganolfan | Llogi Ystafell | 101604 | £18.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

5. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cynllun Datblygu Lleol adolygedig Eryri 2016-2031:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

6. Cyngor Gwynedd - Ail-Fodelu Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd:

Yr oedd Pwyllgor y Ganolfan a'r Cyngor Cymuned ar y cyd wedi cynnal cyfarfod cyhoeddus ar nos Fawrth, Ebrill 10fed 2018 er mwyn canfod barn trigolion lleol a chanfod a oes diddordeb mewn cynnal y clwb drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr.

- Pwyllgor y Ganolfan yn fodlon cynnig ystafell yn rhad ac am ddim er mwyn cynnal clwb ieuenctid
- Mwyafrif presennol yn erbyn codi'r dreth leol oddeutu £3,000 i gynnal clwb ieuenctid yn y pentref, gyda'r mwyafrif o blaid codi'r dreth oddeutu £1,500 i gadw'r clwb ieuenctid
- Dim diddordeb ymysg yr unigolion yn y cyfarfod i gymryd cyfrifoldeb llwyr am redeg clwb ieuenctid gyda gwirfoddolwyr
- Oddeutu hanner dwsin yn fodlon gwirfoddoli ar rota i gynorthwyo mewn cynnal clwb ieuenctid ond nifer yn bryderus am arwain clwb ieuenctid. Yr un person yn fodlon gwirfoddoli i arwain gweithgareddau

**PENDERFYNIAD:** I gysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn gofyn a fyddai modd cyflogi Arweinydd am oddeutu £1,500 y flwyddyn, gyda gwirfoddolwyr i gynorthwyo'r Arweinydd cyflogedig.
Ysgrifennu at yr Eglwys y Bedyddwyr er mwyn diolch iddynt am fynychu'r cyfarfod, gan hefyd ofyn a fyddai gan yr Eglwys ddiddordeb mewn rhedeg clwb ieuenctid ym Mryncrug, gyda Chyngor Cymuned Bryncrug yn cyfrannu tuag at y gost o'i redeg.
Ysgrifennu at Fudiad Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Urdd Gobaith Cymru ac Outward Bound Trust er mwyn gofyn a ydynt efo diddordeb mewn rhedeg clwb ieuenctid, a Chyngor Cymuned Bryncrug.

7. Heddlu Gogledd Cymru - Mynychu cyfarfod o'r Cyngor:

Ymddiheuriad wedi ei dderbyn gan nad oedd yr Heddlu yn medru mynychu cyfarfod mis Ebrill 2018.

**PENDERFYNIAD:** Gofyn i'r Heddlu fynychu cyfarfod Mehefin neu Gorffennaf 2018.

8. Cofrestru Pympiau Dŵr Hanesyddol:

Llythyr wedi ei dderbyn gan Morris & Bates Cyfreithwyr yn dweud bod un o'r pympiau dŵr eisoes wedi ei gofrestru.

**PENDERFYNIAD:** Y clerc i dynnu lluniau ac anfon mapiau lleoliad y pympiau at Morris & Bates, gan ofyn am wybodaeth ynglŷn â pha un o'r pum pwmp sydd wedi ei gofrestru.

9. BDO - Archwiliad ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017:

Derbyniwyd ffurflen flynyddol 2016/17 yn ôl gan gwmni BDO ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan gynnwys adroddiad yn cynnwys materion yn codi, sef:

9.1 Gwefan y Cyngor i gynnwys gwybodaeth electronig ar sut i gysylltu â'r Cyngor, ac os yn wahanol, sut i gysylltu â'r Clerc, yn cynnwys, rhif ffôn, cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost
9.2 Gwybodaeth am bob un aelod, yn cynnwys enw'r aelod, sut i gysylltu â'r aelod, plaid yr aelod (os oes un), y ward mae'r aelod yn ei gynrychioli (lle mae hynny'n berthnasol), unrhyw swydd y mae'r aelod yn ei ddal o fewn y cyngor, unrhyw bwyllgor o'r cyngor y mae'r aelod yn perthyn iddo
9.3 Cofnodion cyfarfodydd y cyngor ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn y cofnodion (lle mae hynny'n rhesymol ymarferol)
9.4 Unrhyw ddatganiad wedi'i archwilio o gyfrifon y cyngor
9.5 Cyllideb digonol i gefnogi a darparu tystiolaeth ar gyfer y cais am bresept
9.6 Cofrestru asedau a buddsoddiadau yn gyflawn gyda phrofion blynyddol gan yr Archwilydd Mewnol

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y wybodaeth yn adroddiad BDO fel a ganlyn:
9.1 Gwybodaeth eisoes ar wefan y Cyngor ar aded yr archwiliad. Archwilydd Allanol heb wirio'r wybodaeth yn gywir
9.2 Gwybodaeth eisoes ar wefan y Cyngor ar aded yr archwiliad. Archwilydd Allanol heb wirio'r wybodaeth yn gywir
9.3 Gwybodaeth eisoes ar wefan y Cyngor ar aded yr archwiliad. Archwilydd Allanol heb wirio'r wybodaeth yn gywir
9.4 Clerc i gynnwys yr holl ddogfennau ar wefan y Cyngor yn dilyn cymeradwyo'r cyfrifon gan y Cyngor
9.5 Eisoes wedi ei weithredu ers archwiliad 2015/16. Fe welir hyn yng nghyllideb 2017/18
9.6 Y Clerc i drafod gyda'r Archwilydd Mewnol

10. Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - Rhodd Ariannol - Llythyr o ddiolch:

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y wybodaeth.

11. Steve Morgan Foundation - Arian ar gael ar gyfer bobl gydag anableddau:

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y wybodaeth. Rhoi copi o'r pamffled ar yr hysbysfwrdd ac anfon copi at Ysgol Craig Aderyn.

12. Elan City - Arwydd cyflymder radar ar gyfer ffyrdd mewn pentrefi:

**PENDERFYNIAD:** Anfon llythyr at Gyngor Gwynedd er mwyn mynegi pryder Cyngor Cymuned Bryncrug am gyflymder a diogelwch cerbydau yn teithio drwy'r pentref o gyfeiriad Llanegryn, ardal Pant Coch. Gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried darparu arwydd radar.

13. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-nad oedd y Clerc wedi gofyn am ddyfynbrisiau i atgyweirio canopi'r Pafiliwn wedi iddo ei ddifrodi gan wyntoedd cryf

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y wybodaeth.

14. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:
-arwydd llwybr cyhoeddus Cil y Parc ddim wedi ei osod gan Gyngor Gwynedd, tymor yr haf yn agosáu gyda nifer o gerddwyr yn ymweld â'r ardal ar eu gwyliau

-draeniau yn llawn dail yn pydru gan nad yw Cyngor Gwynedd yn anfon peiriant i godi dail o'r ffordd
-arwydd llwybr beicio ger y toiledau cyhoeddus angen ei lanhau gydag eiddew yn tyfu drosto

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth gan y Cynghorydd Sir.
Atgoffa Cyngor Gwynedd am yr angen am arwydd i'r llwybr cyhoeddus, gofyn i Brif Beiriannydd Meirionnydd am beiriant er mwyn casglu dail gan hefyd ofyn am lanhau'r arwydd beicio.

15. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

**PENDERFYNIAD:** Dim mater brys i'w godi.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:10pm

Llofnod y Cadeirydd ............................................................